Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Cerdydd
CF99 1SN

10 Hydref 2023

Annwyl Peredur

Yn dilyn ein hymddangosiad gerbron eich Pwyllgor ar 5 Hydref, rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth i chi a fydd yn ategu'r atebion a roddwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth am gostau meysydd parcio wedi'i nodi yn yr atodiad amgaeedig. Mae copïau electronig o'r Arolwg Staff, Cronfa'r Prosiect, a'r diweddariad ar Ymgysylltu wedi'u hatodi i'r llythyr hwn.

Disgwylir i'r Comisiwn ystyried yr adroddiad ar y Defnydd o'r Ystad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Pan fydd yr ystyriaeth wedi'i chwblhau, byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei ddarparu ar eich cyfer i gynorthwyo trafodaethau'r Pwyllgor, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

**Ken Skates AS**

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Kate Innes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

## Comisiwn y Senedd: Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn ein hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 5 Hydref 2023

**Parcio Ceir**

Mae 233 o leoedd parcio ar yr ystad, ac mae 100 ohonynt wedi'u neilltuo ar gyfer Aelodau, ymwelwyr a mannau hygyrch, sy'n darparu 133 o leoedd parcio ar gyfer parcio ar y safle. Yn y maes parcio aml-lawr, y gost fesul un lle parcio yw £5 y dydd (ac eithrio TAW y gellir ei hawlio).

Mae'r galw am barcio wedi lleihau ar ôl y pandemig / cyflwyno gweithio hybrid gyda digon o lefydd parcio ar gael ar y safle ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau pan nad oes Cyfarfod Llawn, sef dydd Llun, dydd Iau a dydd Gwener. Yn ystod y toriad bu digon o leoedd ar gael ar y safle bob amser, ar ôl y pandemig, heb fod angen defnyddio'r cyfleuster gorlifo. (Weithiau mae nifer fach o unigolion nad ydynt yn gwirio argaeledd ar y safle y cysylltir â hwy a'u hatgoffa i ddefnyddio'r cyfleuster aml-lawr dim ond pan fydd y parcio ar y safle yn llawn). Mae'r angen i ddefnyddio'r cyfleuster aml-lawr yn digwydd yn bennaf ar ddiwrnodau'r Cyfarfod Llawn.

Mae'r defnydd o barcio ceir a'r costau parcio oddi ar y safle yn cael eu monitro a byddant yn cael eu hadolygu i ystyried y posibilrwydd o ailgyflwyno tâl yn y dyfodol os bydd costau a defnydd yn cynyddu. Caiff y costau eu talu o'r cyllidebau presennol.

Cyfanswm y gost flynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 i barcio oddi ar y safle oedd £8,900.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r mannau a ddefnyddir yn fisol yn y flwyddyn ariannol bresennol yn y cyfleuster aml-lawr a'r gost gysylltiedig hyd at 31 Awst 2023.

| | **Mannau a ddefnyddir** | **Cost (heb TAW)** | **Defnydd uchaf ar unrhyw ddiwrnod penodol** |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 98 | £490 | 56 (Maw) |
| Mai | 348 | £1,740 | 55 (Mercher) |
| Mehefin | 296 | £1,450 | 42 (Maw) |
| Gorffennaf | 200 | £1,000 | 54 (Maw) |
| Awst | 10 | £50 | 1 (Pob diwrnod) |

Byddai ailgyflwyno taliadau parcio ceir yn effeithio'n anghymesur ar staff ar gyflogau is sy'n rhan o dimau ein staff Diogelwch a Phrofiad Ymwelwyr ac y mae'n ofynnol iddynt fod ar y safle i gyflawni eu rolau.

Byddai awgrym i ailgyflwyno taliadau parcio ceir i Aelodau yn unig, yn codi uchafswm o £21,600 y flwyddyn, gan dybio bod pob Aelod yn talu £30 y mis am 12 mis. Byddai'r incwm hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan y gost ychwanegol o weinyddu tâl maes parcio.

Yn flaenorol, roedd gan y Comisiwn gyllideb ar gyfer costau parcio ceir (£100,000) a tharged incwm cyfatebol. Mae'r gyllideb wedi'i dileu gan nad ydym bellach yn talu'r costau hyn felly byddai cadw targed incwm ar gyfer yr incwm yn achosi pwysau o ran costau. Felly mae'r gyllideb ar gyfer costau parcio ceir ac ar gyfer cynhyrchu incwm wedi cael ei dileu gydag effaith net o £0.

# Arolwg Staff Comisiwn y Senedd

2022-2023

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cynnwys

**Croeso** .......... **5**

**Ciplun** .......... **6**

**Trosolwg** .......... **7**

**Y Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle** .......... **8**

Chwe Cham at Ymgysylltu yn y gweithle .......... **Error! Bookmark not defined.**

**Themâu Comisiwn y Senedd** .......... **13**

Fy rheolwr .......... 14

Arweinyddiaeth a Rheoli Newid .......... 15

Dysgu a Datblygu .......... 16

Comisiwn y Senedd a'i Ddiwylliant .......... 17

Fy Nhîm .......... 18

Y Mynegai Ymgysylltu .......... 19

**Cwestiynau sy'n sgorio uchaf ac isaf** .......... **22**

**Sylwadau gair am air** .......... **23**



# Croeso

**Diolch am gymryd rhan yn ein 10fed arolwg staff blynyddol. Mae ein harolwg staff yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ni o'ch profiad personol chi o weithio yn y Senedd ac yn rhoi'r cyfle i ni nodi meysydd i'w gwella a rhoi newid ar waith ar sail eich adborth.**

Rydym wedi gweithio ar y cyd ag WorkEl eto, sef arbenigwyr ymgysylltu â staff, i gynnal yr arolwg diweddaraf, ac wedi cyfuno eu harbenigedd hwy â'n hanghenion penodol ni. Mae'r bartneriaeth hon wedi ein galluogi ni i barhau i feincnodi ein canlyniadau yn erbyn amrywiaeth ehangach o sefydliadau tebyg, gan gynnwys y gwasanaeth sifil.

Rydym hefyd wedi gallu cymharu canlyniadau eleni â chanlyniadau'r llynedd ar y chwe thema graidd, sef:


- Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth
- Rhannu Gwybodaeth
- Galluogi
- Llesiant
- Ennyn Balchder
- Boddhad Gwaith

Unwaith eto, mae'r canlyniadau'n dangos bod timau'n gweithio'n hyblyg, ac yn cefnogi ei gilydd trwy her a newid; ac o fwyafrif llethol, mae cydweithwyr yn falch o weithio yn y Senedd.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod wastad lle i wella, ac felly mae ein hamcanion Cyflawni Corfforaethol a Lefel Gwasanaeth yn adlewyrchu adborth o'r Arolygon Pwls Lles a'r Arolwg Staff Blynyddol; gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, adolygiad ac adnewyddiad o'r cynnig Dysgu a Datblygu presennol a gweithrediad parhaus ein Strategaeth Llesiant 2022-25.

Felly, bydd y canlyniadau hyn, a'r hyn y maent yn ei ddweud wrthym, yn ein helpu i ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau ar gyfer twf wrth inni edrych ymlaen at y Seithfed Senedd, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ystwyth ac yn ymatebol yn ein datblygiad fel Senedd i bobl Cymru.

Diolch o galon i bawb.



**Manon Antoniazzi**,
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

# Ciplun

| | Sgôr Mynegai Ymgysylltu | 75% |
|---|---|---|

## Themâu y Mynegai Hapusrwydd yn y Gweithle

**74%**
Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth
(-3%)

**73%**
Rhannu Gwybodaeth
(0%)

**74%**
Grymuso
(0%)

**72%**
Llesiant
(0%)

**78%**
Ennyn Balchder
(-1%)

**78%**
Boddhad Gwaith
(0%)

## Themâu Comisiwn y Senedd

**75%**
Fy Rheolwr
(+2%)

**64%**
Arweinyddiaeth a Rheoli Newid
(+1%)

**66%**
Dysgu a Datblygu
(+1%)

**79%**
Diwylliant Sefydliadol
(+1%)

**83%**
Fy Nhîm
(+1%)

# Trosolwg

Cynhaliwyd yr arolwg staff Comisiwn y Senedd hwn ym mis Mawrth 2023. Gyda chyfradd ymateb o 71 y cant i'r arolwg, y sgôr cyffredinol oedd 75 y cant yn erbyn y Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle.

| Thema | Sgôr cyfartalog fel canran | Gwahaniaeth i'r arolwg blaenorol fel canran |
|---|---|---|
| **Mynegai Ymgysylltu** | **75** | - |
| Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth | **74** | -2.9 |
| Rhannu Gwybodaeth | **73** | +0.4 |
| Galluogi | **74** | +0.3 |
| Llesiant | **72** | -0.2 |
| Ennyn Balchder | **78** | -1.1 |
| Boddhad Gwaith | **78** | +0.5 |
| Fy Rheolwr | **75** | -1.7 |
| Arweinyddiaeth a rheoli newid | **64** | +1.3 |
| Dysgu a Datblygu | **66** | +1.2 |
| Comisiwn y Senedd a'i Ddiwylliant | **79** | +1.6 |
| Fy Nhîm | **83** | +1 |

# Y Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle


Mae'r Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle yn fframwaith sy'n cwmpasu'r chwe ysgogydd allweddol ar gyfer hapusrwydd a llesiant gweithwyr ac ymgysylltu â hwy: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth, Rhannu Gwybodaeth, Galluogi, Llesiant, Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith.

## Sgoriau Chwe Cham i Ymgysylltu yn y Gweithle

Y Chwe Cham yw'r chwe chategori y mae angen i chi fynd i'r afael â nhw a gweithio arnynt i ymgysylltu â'ch staff a gwella ymgysylltiad yn y gweithle


| | | |
|---|---|---|
| **Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth** | 74% | **Sgôr da!** |
| **Rhannu Gwybodaeth** | 73% | **Sgôr da!** |
| **Galluogi** | 74% | **Sgôr da!** |
| **Llesiant** | 72% | **Sgôr da!** |
| **Ennyn Balchder** | 78% | **Sgôr da!** |
| **Boddhad Gwaith** | 78% | **Sgôr da!** |

## Dadansoddiad Cymharol




Mae’r graff hwn yn dangos sgoriau’r Senedd o gymharu â’r sgoriau sector cyhoeddus a byd-eang ar gyfer pob un o’r Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle. Mae’n galonogol gweld bod sgoriau cyffredinol Comisiwn y Senedd ym mhob un o’r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle yn uwch na sgoriau’r sector syhoeddus a cyd-eang neu’n gyfartal â’r sgoriau hyn.


Mae’r fantais fwyaf arwyddocaol i’w gweld o dan ‘Ennyn Balchder’, lle mae sgôr cyflogeion y Senedd o 78 y cant yn +7 y cant a +6 y cant yn uwch na chyfartaleddau sgôr y sector cyhoeddus a byd-eang. Yn agos ar ôl hyn daw ‘Boddhad Gwaith’, gyda sgôr gweithwyr y Senedd o 78 y cant yn codi +8 y cant a +5 y cant yn uwch na sgoriau'r sector cyhoeddus a byd-eang yn y drefn honno.




Mae'r ymatebion i'r datganiad 'Rwy'n cael fy nghydnabod pan fyddaf yn gwneud rhywbeth yn dda' wedi aros yn gyson ar 74 y cant ers 2020.

Er bod 79 y cant o gydweithwyr Comisiwn y Senedd yn hapus â'r oriau y maent yn eu gweithio yn 2020, gostyngodd hyn ychydig i 78 y cant yn 2021 a 2022.

Mae gostyngiad sylweddol (8 y cant) yn cael ei nodi o ran cydweithwyr sy'n credu eu bod yn cael eu talu'n deg.





Gwelwyd gostyngiad bach yn y cydweithwyr sy'n credu bod eu barn yn cael ei chlywed yn y gwaith, o 74 y cant yn 2020 i 73 y cant yn 2021 a 2022.

Ers 2020, rydym wedi gweld gostyngiad graddol o 73 y cant i 70 y cant yn y cydweithwyr sy'n dweud bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda hwy mewn ffordd rydd ac agored.


Mae nifer y cydweithwyr sy'n ein sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud eu gwaith yn dda wedi

*"Mewn llefydd eraill rydw i wedi gweithio, mae cyfathrebu mewnol wedi bod yn rhan hanfodol o wneud i staff deimlo'n gysylltiedig â'r sefydliad, ac â'i gilydd, ac rwy'n meddwl ei bod hyd yn oed yn bwysicach nawr nad yw staff yn gweld ei gilydd cymaint ag oeddent cyn y pandemig."*




Mae cydweithwyr y cânt eu hymddiried (74 y cant) a'u caniatau (72 y cant) i wneud penderfyniadau yn parhau i fod yn gyson ag arolwg y llynedd. Mae'r ddau wedi gostwng 1 y cant ers 2020.

Mae mwyafrif o gydweithwyr (76 y cant) yn cytuno bod ganddynt yr hyn sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith yn dda, sef cynnydd o 1 y cant ers y llynedd, ond 2 y cant yn is na 2020.





Er bod sgôr llesiant cyffredinol y Senedd yn cael ei hystyried yn 'dda', sef 72 y cant, nodir mai dyma yw ein cam isaf yn y Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle.

Er bod 75 y cant o gydweithwyr yn hapus gyda'u hamgylchedd gwaith presennol, mae hyn yn is na blynyddoedd blaenorol.


Dim ond 63 y cant o gydweithwyr sy'n datgan eu bod 'yn anaml yn teimlo'n bryderus am waith' sy'n gyson â'r ymateb yn 2020, ond mae'n gynnydd o 3 y cant ers y

*"Yn sgil gweithio o gartref a dod i mewn pan fo angen, mae fy nghydbwysedd bywyd a gwaith wedi gwella'n aruthrol. Rwy'n credu bod hyn wedi fy ngwneud yn fwy effeithlon wrth weithio ac yn fwy egnïol ar gyfer gweithgareddau ar ôl gwaith fel mynd i'r gampfa ac ymweld â theulu."*




Mae cydweithwyr a fyddai'n argymell y Senedd fel lle i weithio yn parhau ar 79 y cant, gostyngiad o 4 y cant ers 2020.

Rydym wedi gweld gostyngiad graddol yn nifer y cydweithwyr sy'n teimlo'n falch o weithio i'r Senedd a'r rhai sy'n teimlo eu bod yn 'gwneud rhywbeth gwerth chweil,' ond dylid nodi bod y sgoriau'n parhau'n uchel yn y meysydd hyn, sef 80 y cant a 75 y cant yn y drefn honno.




Mae mwyafrif llethol o gydweithwyr yn dweud bod ganddynt berthynas dda gyda'u rheolwr (86 y cant), ond mae hyn wedi gostwng ychydig o gymharu â blynyddoedd blaenorol.


Mae cydweithwyr yn parhau i sgorio'n uchel o ran boddhad gwaith a chael eu trin â pharch, ond bu gostyngiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol (-5 y cant a -1 y cant yn y drefn honno).

*"Ar ôl gweithio i lawer o sefydliadau yn y 10 mlynedd diwethaf, gallaf ddweud yn onest fod Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith da i bawb. Rwy'n falch o fod yn rhan ohono ac yn credu gyda'n gilydd y gallwn wneud cymaint mwy o gynnydd."*

# Themâu Comisiwn y Senedd


Mae'r cwestiynau canlynol yn rhai a ddefnyddiwyd yn arolygon staff blynyddol blaenorol Comisiwn y Senedd, ac maent yn debyg i gwestiynau a geir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Rydym wedi dewis cynnwys y cwestiynau hyn eto, gan eu bod yn rhoi rhywfaint o fesur inni o sut yr ydym wedi perfformio yn erbyn blynyddoedd blaenorol.

# Fy Rheolwr





Mae sgoriau yn y maes hwn parhau i fod yn gyson uchel, gan ddangos bod rheolwyr ar draws y Senedd yn gwrando ar safbwyntiau eu timau a bod cyfraniadau'n cael eu nodi a'u dathlu i raddau helaeth. Yn eu tro, mae gan dimau hyder yn y penderfyniadau a wneir gan eu rheolwyr. Ymdrin â pherfformiad gwael yw'r datganiad sydd â'r sgôr isaf unwaith eto, gyda gostyngiad o -1 y cant o un flwyddyn i'r llall.

## Arweinyddiaeth a Rheoli Newid





Dyma'r categori â'r sgôr isaf o bob pwnc yn y chwe cham a'r cwestiwn craidd, gyda sgoriau cyfartalog yn gostwng o 68 y cant (2020) i 63 y cant (2021) a 64 y cant (2022).

## Dysgu a Datblygu




Nodwyd cynnydd o 1 y cant yn nifer y cydweithwyr sy'n credu bod gweithgareddau dysgu a datblygu a gwblhawyd wrth weithio i Gomisiwn y Senedd yn eu helpu i ddatblygu eu gyrfa, a arhosodd ar 65 y cant yn 2020 a 2021. Mae 63 y cant o gydweithwyr yn dweud eu bod wedi defnyddio'r cyfleoedd dysgu a datblygu a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis diwethaf i ehangu gwybodaeth a pherfformiad. Mae 68 y cant o gydweithwyr yn dweud eu bod yn gallu cael mynediad at y cyfleoedd dysgu a datblygu cywir pan fo angen, sef gostyngiad o -2 y cant ers 2020.


## Diwylliant y Sefydliad




Er bod sgoriau yn y categori hwn wedi gostwng ychydig yn 2021, nodwyd cynnydd yn 2022. Mae 79 y cant o gydweithwyr yn cytuno bod Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol, a bod Comisiwn y Senedd yn parchu gwahaniaethau unigol.

*“Mae Comisiwn y Senedd yn gyflogwr gwych ac rwy'n ffodus o fod yn gweithio yn y fath swydd ddiddorol a phwysig, a hynny mewn sefydliad arbennig iawn.”*


## Fy Nhîm




Yn dyst i ethos #UnTîm yng Nghomisiwn y Senedd, y categori a gafodd y sgôr uchaf ar draws pob categori oedd 'Fy Nhîm.' Yn 2022, mae 85 y cant o gydweithwyr yn awgrymu y gellir dibynnu ar y bobl yn eu tîm i helpu pan fydd pethau'n mynd yn anodd yn eu swydd, a dywed 84 y cant fod 'y bobl yn fy nhîm yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaeth a ddarparwn'. Mae'n werth nodi mai dyma'r unig gategori sydd wedi gweld cynnydd ar sgoriau 2020.

*"Yn fy mlwyddyn gyntaf yn y Senedd, rydw i teimlo fy mod wedi cael croeso gan bobl o bob rhan o'r sefydliad. Mae'n lle hyfryd iawn i weithio! Ac rwy'n teimlo'i bod yn fraint cael bod yn rhan ohono. Ond mae'n sefydliad dryslyd i ddod i mewn iddo, ac mae seilos a waliau rhwng timau sydd angen eu chwalu."*

# Mynegai Ymgysylltu




Yn ogystal â'r Mynegai Ymgysylltu craidd, mae WorkL wedi cyflwyno dau fynegai ychwanegol eleni: y Mynegai Risg Llesiant a'r Mynegai Risg Ymadawiad.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu ffocws cynyddol ar lesiantr y gweithlu ac mae hwn yn parhau i fod yn fater pwysig i ni fel cyflogwyr a gweithwyr fel ei gilydd. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi ein cydweithwyr i ddatblygu gwybodaeth a phrofiad, a bod y gallu i gadw unigolion dawnus a phrofiadol yn hanfodol i gyflawni ein nodau sefydliadol.

| | |
|---|---|
| **Y Mynegai Risg Llesiant** | Eich Mynegai Risg Llesiant yw canran y bobl sydd â llesiant isel/gwael yn eich sefydliad. Po uchaf yw'r nifer, po fwyaf o ymatebwyr sydd â lles isel, a'r uchaf yw'r risg. Canran agosach at 0% yw'r sgôr llesiant cyffredinol gorau. |

| | 2020 | 2021 | 2022 | Cyfartaledd diwydiant 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y gweithwyr sydd mewn perygl o fod â llesiant gwael | | | 21% | 40% |
| Mae fy nghyflogwr yn gofalu am fy llesiant | 80% | 78% | 79% | 68% |
| Anaml y byddaf yn teimlo'n bryderus neu'n isel am fy ngwaith | 63% | 60% | 63% | 57% |
| Rwy'n hapus â fy amgylchedd gwaith presennol | 76% | 80% | 75% | 72% |
| Rwy'n teimlo'n hapus yn y gwaith | 74% | 71% | 72% | 69 y cant |





Er bod y canlyniadau'n dangos bod gan y Senedd 'sgôr da' ar 21 y cant, credwn fod y nifer yn dal yn rhy uchel i gynrychioli nifer ein cydweithwyr sydd mewn perygl o fod â llesiant gwael.

Rydym wedi ymrwymo i weld y nifer yn lleihau, a byddwn yn parhau i ddefnyddio arolygon Pwls drwy gydol y flwyddyn i fonitro llesiant yn y Senedd; a gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a thimau i ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Gweithredu Llesiant.

| | |
|---|---|
| ***Mynegai Risg Ymadawiad** | Y sgôr Risg Ymadawiad yw canran y bobl sydd â photensial uchel i adael eu sefydliad yn ystod y naw mis nesaf. Po uchaf yw'r nifer, po fwyaf o ymatebwyr fyddai'n debygol o adael eu sefydliad, a'r isaf yw'r nifer, yr isaf yw'r risg. |

| | 2020 | 2021 | 2022 | Cyfartaledd diwydiant 2022 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y gweithwyr sydd â siawns uchel o adael yn y naw mis nesaf | | | 16% | 41% |
| Rwy'n cael fy nhalu'n deg | 78% | 78% | 70% | 66% |
| Mae gen i berthynas dda â'm rheolwr | 88% | 87% | 86% | 76% |
| Rwy'n mwynhau fy swydd | 81% | 76% | 76% | 71% |
| Rwy'n cael fy natblygu | 70% | 67% | 68% | 62% |

## Risg Ymadael




**Mae siawns uchel y bydd 16 y cant o weithwyr yn gadael yn y 9 mis nesaf**

**Ardderchog!**

41% Diwydiant 41% Byd-eang

Mae'r canlyniadau'n dangos bod gan 16 y cant o gydweithwyr y Senedd siawns uchel o adael yn y naw mis nesaf, o'i gymharu â 41 y cant o ran cyfartaledd y sector cyhoeddus ac yn fyd-eang. Ystyrir hwn yn sgôr 'rhagorol', ac yn wahanol i'r mynegai lles, rydym yn gwerthfawrogi na fydd byth yn 0 y cant o ystyried maint y sefydliad a'r cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i gydweithwyr.

# Cwestiynau sy'n sgorio uchaf ac isaf

Yn seiliedig ar ganran gyfartalog yr ymatebion ar gyfer pob cwestiwn, mae’r tabl canlynol yn dangos y cwestiynau â’r ymatebion uchaf ac isaf. Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar sgôr cymedrig pob cwestiwn.

| | Canran cyfartalog | Gwahaniaeth i’r arolwg blaenorol |
|---|---|---|
| **Y cwestiynau sy'n sgorio uchaf** | | |
| Mae gen i berthynas dda â'm rheolwr | 86% | -1% |
| Gellir dibynnu ar y bobl yn fy nhîm i helpu pan fydd pethau'n mynd yn anodd yn fy ngwaith | 85% | +1% |
| Mae'r bobl yn fy nhîm yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym | 84% | +2% |
| Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau | 84% | - |
| Ar y cyfan, mae gennyf hyder yn y penderfyniadau a wneir gan fy rheolwr | 83% | -1% |

| | | |
|---|---|---|
| **Y cwestiynau sy'n sgorio isaf** | | |
| Anaml iawn y byddaf yn teimlo'n bryderus am waith. | 63% | +3% |
| Credaf fod gan y tîm arweinyddiaeth strategaeth glir ar gyfer y dyfodol | 63% | +2% |
| Rwyf wedi defnyddio’r cyfleoedd dysgu a datblygu a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf i ehangu fy ngwybodaeth a pherfformiad. | 63% | +1% |
| Pan wneir newidiadau yng Nghomisiwn y Senedd, gwneir hynny er gwell fel arfer | 64% | - |
| Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm | 64% | -1% |

# Sylwadau gair am air

Manteisiodd mwyafrif yr ymatebwyr ar y cyfle i roi sylwadau neu adborth, neu ofyn cwestiynau. Roedd y rhain yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau a chânt eu cyflwyno fel themâu. Ceir crynodeb o bob thema isod.

### Amodau Gwaith

Cynigiodd llawer o'r ymatebwyr fyfyrdodau cadarnhaol ar weithio yng Nghomisiwn y Senedd, gan nodi buddion gwych, gweithio hyblyg a chyfleoedd datblygu; *"Rwy'n teimlo bod y Senedd yn lle gwych i weithio ac mae'n rhoi'r cyfle i unigolion symud ymlaen yn eu gyrfa os ydynt yn dymuno gwneud hynny, gan ddarparu llawer o gyrsiau i weithwyr a fydd yn caniatáu iddynt wneud eu gwaith yn dda. Mae'r swydd yn talu'n dda ar fy lefel i ar hyn o bryd ac rydyn ni'n cael buddion gwych."*

### Arweinyddiaeth a Chyfathrebu

Gwnaed nifer o sylwadau adeiladol mewn perthynas ag arweinyddiaeth a chyfathrebu mewnol fel pa mor weladwy yw uwch reolwyr, darparu diweddariadau mewn perthynas â phrif raglenni gwaith a chyfathrebu gweledigaeth, strategaethau ac amcanion y sefydliad. Soniodd ymatebwyr hefyd am y duedd tuag at weithio mewn seilos, diffyg cydweithredu ar draws cyfarwyddiaethau a'r awydd am fwy o ymddiriedaeth ac annibyniaeth. Pan ofynnwyd beth fyddai'n gwella hapusrwydd yn y gweithle, ymatebodd un person, *"mwy o annibyniaeth yn fy ngwaith, llwyth gwaith ysgafnach fel nad oes rhaid i mi weithio ar benwythnosau, gallu siarad ag uwch reolwyr."*

### Llesiant

Gofynnwyd i gydweithwyr fyfyrio ar lesiant yn y gweithle a chyfleoedd i wella'u profiad. Gwnaeth nifer ohonynt awgrymiadau ar gyfer gwella, fel cychwyn wythnos 4 diwrnod, cyfleusterau campfa ar y safle a chyfleusterau gwell yn Nhŷ Hywel.

### Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth

Cyfeiriwyd at raddfeydd cyflog a thelerau ac amodau droeon, yn ogystal â chyfleoedd gwaith a dilyniant. Codwyd patrymau sifft a chyflogau cydweithwyr yn y tîm Diogelwch hefyd, a dywedodd un ymatebydd *"Mae'r diffyg gweithredu gan uwch reolwyr i gynyddu cyflogau i gydnabod chwyddiant eithriadol yn eich digalonni."*

### Dysgu a Datblygu Sefydliadol

Gofynnwyd i gydweithwyr fyfyrio ar y cynnig dysgu a datblygu a chafwyd ystod o sylwadau ac adborth. Roedd yr adborth yn cynnwys diffyg hyfforddiant perthnasol, cyfleoedd datblygu cyfyngedig a dim capasiti i gwblhau hyfforddiant. Cyfeiriodd llawer o gydweithwyr hefyd at ddiffyg dilyniant gyrfa a chyfraniadau trosoli ar draws y sefydliad.

# Geirfa

| Term | Ystyr |
|---|---|
| **%** | Mae’r canrannau yn yr adroddiad hwn ar gyfer y Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle a themâu Comisiwn y Senedd wedi’u cyfrifo drwy gymryd y sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob cwestiwn, sydd wedi’i gosod drwy’r raddfa 10 pwynt. |
| **Cyfradd 10 pwynt** | Mae’r canrannau yn yr adroddiad hwn ar gyfer y Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle a themâu Comisiwn y Senedd wedi’u cyfrifo drwy gymryd y sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer pob cwestiwn, sydd wedi’i gosod drwy’r raddfa 10 pwynt |
| **Demograffig** | Drwy gydol yr adroddiad hwn, caiff nifer o grwpiau demograffig eu dadansoddi a'u trafod. Mae'r ddemograffeg yn sectorau penodol o fewn y boblogaeth a ymatebodd, fel grwpiau oedran. |
| **WorkL Engaging Business** | Y sefydliad partner ar gyfer yr arolwg, sydd â’r nod o helpu sefydliadau i gael gweithlu hapusach, mwy ymgysylltiol a mwy cynhyrchiol. |
| **Mynegai Ymgysylltu** | Caiff y sgôr ymgysylltu gyffredinol ei chyfrifo o gymedr y sgorau Chwe Cham at Ymgysylltu yn y Gweithle. |
| **Sgôr y sector cyhoeddus** | Mae sgoriau’r sector cyhoeddus a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn gasgliad o ganlyniadau arolygon gan weithwyr sy’n gweithio yn y diwydiant hwn, gan gynnwys canlyniadau staff Senedd yr Alban, y Swyddfa Gartref a’r British Council. |
| **Y cwestiynau craidd** | Mae naw cwestiwn craidd sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg staff ers mis Chwefror 2012 (heblaw am 'Mae pawb rwy'n cydweithio â nhw'n dangos parch tuag ataf', na chafodd ei gynnwys yn arolwg 2013):<br>**Mae fy rheolwyr yn nodi ac yn dathlu cyfraniadau unigolion a chyfraniadau'r tîm**<br>**Rwy'n credu ei bod hi'n ddiogel herio'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud yn y Senedd**<br>**Mae fy rheolwr yn gwrando ar fy safbwyntiau** |

| Term | Ystyr |
|---|---|
| | ▪ *Rwy'n teimlo y rhoddir gwerth ar fy marn (2012)*<br>▪ *Gofynnir fy marn ac rwy'n cymryd rhan mewn unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar fy ngwaith (2013)*<br>▪ *Rwy'n teimlo bod fy rheolwr yn holi fy marn ac yn ei gwerthfawrogi (2015 ymlaen)*<br>**Ymdrinnir â pherfformiad gwael yn effeithiol yn fy nhîm**<br>**Rwy'n cael fy nhrin â pharch**<br>▪ *Mae pawb rwy'n cydweithio â hwy yn dangos parch tuag ataf (2019)*<br>**Rwy'n cael digon o wybodaeth i wneud fy swydd yn dda**<br>▪ *Caf y wybodaeth sydd ei hangen arnaf i wneud y gwaith yn dda (2019)*<br>**Rwy'n fodlon ar fy oriau gwaith**<br>▪ *Mae cydbwysedd da rhwng fy mywyd gwaith a fy mywyd preifat (2019)*<br>**Rwy'n teimlo bod Comisiwn y Senedd yn cael ei reoli'n dda yn gyffredinol**<br>**Byddwn yn argymell i'm ffrindiau a'm teulu ddod i weithio i'm sefydliad**<br>▪ *Byddwn yn dweud wrth eraill fod y Cynulliad yn lle gwych i weithio (2019)* |
| **Themâu sy'n benodol i'r Senedd** | Themâu sy'n cynnwys cwestiynau a ddewiswyd ac a grëwyd gan Gomisiwn y Senedd, ar wahân i'r Mynegai Hapusrwydd a'r Chwe Cham at Hapusrwydd yn y Gweithle |
| **Thema y Senedd - Arweinyddiaeth a Rheoli Newid** | Cwestiynau yn ymwneud â'r berthynas â'ch rheolwr a rheoli newid sefydliadol yn effeithiol. |
| **Thema'r Senedd - Dysgu a Datblygu** | Cwestiynau i ddatblygu dealltwriaeth ynghylch mynediad staff at gyfleoedd dysgu a datblygu i ddatblygu eu gyrfa, a'u hymgysylltiad â'r cyfleoedd hyn. |
| **Thema'r Senedd – Fy Rheolwr** | Cwestiynau yn ymwneud â pherthynas aelod o staff â'i reolwr. |
| **Thema'r Senedd – Fy nhîm** | Cwestiynau yn ymwneud â pherthynas aelod o staff â'i gydweithwyr uniongyrchol. |
| **Thema'r Senedd - Diwylliant sefydliadol** | Cwestiynau yn ymwneud â dealltwriaeth aelod o staff o'r hyn y mae'r Senedd yma i'w wneud. |

| Term | Ystyr |
|---|---|
| **Chwe Cham - Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth** | Cwestiynau yn ymwneud â safbwyntiau gweithwyr am eu cyflog, oriau gwaith a'r gydnabyddiaeth a gânt yn y gwaith. |
| **Chwe Cham - Rhannu Gwybodaeth** | Cwestiynau i ddangos pa mor effeithlon ac effeithiol y mae sianeli gwybodaeth a chyfathrebu. |
| **Chwe Cham - Grymuso** | Cwestiynau sy'n dehongli a oes gan weithwyr gyfleoedd i wneud penderfyniadau, yn ogystal ag a ydynt yn gymwys i gyflawni eu rolau'n effeithiol. |
| **Chwe Cham - Llesiant** | Cwestiynau yn ymwneud â llesiant meddyliol gweithwyr a'u safbwyntiau am agweddau ar eu gwaith. |
| **Chwe Cham - Ennyn Balchder** | Mae cwestiynau yn y thema hon yn dehongli balchder gweithwyr a'r ymdeimlad o werth y maent yn ei gael o weithio i'w sefydliad. |
| **Chwe Cham - Boddhad Gwaith** | Nod y cwestiynau oedd deall datblygiad personol gweithwyr a chryfder eu perthynas â'u rheolwyr priodol. |

## Amserlen Prosiectau ar y Gweill yn y Tymor Canolig fel ar 6 Hydref 2023

| Rhif cyfres | Portffolio | Teitl Prosiect y Comisiwn | Statws y Prosiect | Bl y bwriedir cwblhau'r g |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Portffolio 2023-24 | Uwchraddio arfau - coffrau diogelwch | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 2 | Portffolio 2023-24 | Cyfarpar teledu cylch cyfyng newydd | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 3 | Portffolio 2023-24 | System gyflogres | Aros am yr achos busr | 23-24 |
| 4 | Portffolio 2023-24 | Adnewyddu TGCh y Comisiwn | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 5 | Portffolio 2023-24 | Drysau tân newydd yn Nhŷ Hywel | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 6 | Portffolio 2023-24 | Polion fflagiau newydd yn Nhŷ Hywel | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 7 | Portffolio 2023-24 | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid Cam 1 | Wedi'i gwblhau | 23-24 |
| 8 | Portffolio 2023-24 | Gadael Swyddfa Gogledd Cymru | Wedi'i gwblhau | 23-24 |
| 9 | Portffolio 2023-24 | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 10 | Portffolio 2023-24 | Prosiect archifo | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 11 | Portffolio 2023-24 | Prosiect y Siambr 26 | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 12 | Portffolio 2023-24 | Prosiect Tŷ Hywel 26 | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 13 | Portffolio 2023-24 | Prosiect y Bae 2032 | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 14 | Portffolio 2023-24 | System Reoli'r Llyfrgell | Aros am yr achos busr | 23-24 |
| 15 | Portffolio 2023-24 | Addasiadau Tŷ Hywel i greu lle i'r Comisiwn | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 16 | Portffolio 2023-24 | System Senedd TV newydd | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 17 | Portffolio 2023-24 | Adolygu System Rheoli Dogfennau | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 18 | Portffolio 2023-24 | System Archebu Asedau | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 19 | Portffolio 2023-24 | Dogfennau a osodwyd | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 20 | Portffolio 2023-24 | System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (y camau nesaf) | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 21 | Portffolio 2023-24 | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 22 | Portffolio 2023-24 | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 23 | Portffolio 2023-24 | Prosiect Symleiddio'r Bwrdd Taliadau | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 24 | Portffolio 2023-24 | Prosiect y Gofrestr Lobïo Wirfoddol | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 25 | Portffolio 2023-24 | Adolygiad thematig o gymorth staffio IRB | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 26 | Portffolio 2023-24 | Prosiect Chwilio'r Cofnod | Yn mynd rhagddo | 23-24 |
| 27 | Portffolio 2023-24 | Penderfyniad – prosiect system rheoli gwybodaeth | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 28 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod unedau trin aer newydd yn Nhŷ Hywel | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 29 | Portffolio 2023-24 | System hawliadau Aelodau | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 40 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Astudiaeth Ddichonoldeb Uned Trin Aer ac Oerwr | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 31 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Goleuadau swyddfa LED | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 32 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Bleind newydd i daflunydd y Pierhead | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 33 | Portffolio 2023-24 | Prosiect archif darlledu newydd | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 34 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod pwmp dŵr oer newydd yn y Senedd | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 35 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gwella diogelwch y canopi gwydr | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 36 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Cynnal a chadw / newid trapiau tanc y Senedd | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 37 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Uwchraddio'r rhwystrau yn y maes parcio | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 38 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod system uwchseinydd newydd yn Nhŷ Hywel | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 39 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Glanhau llechi'r Senedd | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 40 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Glanhau brics Tŷ Hywel | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 41 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod drysau allanol newydd | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 42 | Portffolio 2023-24 | Rhaglen adnewyddu cyfarpar TGCh y Comisiwn | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 43 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Y giât dro ym mynedfa gefn Tŷ Hywel | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 44 | Portffolio 2023-24 | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gwaith trwsio yn dilyn yr archwiliad o'r Pierhead a gynhelir bob 4 bly | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 45 | Portffolio 2023-24 | Adolygiad o'r Mesur Safonau | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 46 | Portffolio 2023-24 | 7fed senedd - model ar gyfer y staff cymorth | Symud i 24-25? | 23-24 |
| 47 | Yn yr arfaeth | Y Bae 2032 (camau dilynol) | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 48 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod cyfarpar Solar Ffotofoltäig | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 49 | Yn yr arfaeth | Prosiect cyfarpar TGCh ychwanegol - Diwygio'r Senedd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 50 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Ymgynghoriaeth Adolygu'r Pierhead | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 51 | Yn yr arfaeth | Ty Hywel 26 (camau dilynol) | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 52 | Yn yr arfaeth | Siambr 26 (camau dilynol) | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 53 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod unedau trin aer newydd yn Nhŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 54 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Cyfarpar teledu cylch cyfyng - caledwedd newydd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 55 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Darnau hanfodol ar gyfer dangosyddion sbarduno cyfyngiadau aer (A | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 56 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Uwchraddio lifftiau 1 a 2 yn y Senedd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 57 | Yn yr arfaeth | Addasiadau ffyrdd o weithio ychwanegol yn Nhŷ Hywel i hwyluso Prosiect Tŷ Hywel 2026 | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 58 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Uwchraddio Lifft Tŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 59 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Uned Gwasgedd a Phympiau Dŵr Oer Cychwynnol Tŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 60 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: System Awyrellau Mwg Tŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 61 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Falfiau Rheiddiaduron Tŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 62 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Rhaglen dreigl - ailaddurno'r ystad | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 63 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gosod larwm tân newydd yn y Pierhead | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 64 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Pympiau gwresogi a system dychwelyd dŵr poeth yn y Pierhead | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 65 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Ailwampio'r cownter gweini | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 66 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Ailwampio'r toiledau ym Mloc A ar y Llawr Gwaelod | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 67 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Ailaddurno'r grisiau ym Mloc A ac C | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 68 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Cyfarpar Arlwyo Cam 3 | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 69 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: System Rheoli Gwasanaethau newydd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 70 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Wal dân newydd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 71 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Batri cyflenwad pŵer di-dor newydd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 72 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Cryfhau band eang y Comisiwn (PSBA) | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 73 | Yn yr arfaeth | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 74 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Aildendro datrysiadau wrth gefn | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 75 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Cynnydd yng nghostau Microsoft Azure | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 76 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Cytundeb SIP/Voip | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 77 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Seiber - hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 78 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Trwyddedau a chymorth Cisco ISE | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 79 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Gartner | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 80 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Trwyddedau a chymorth BC | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 81 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Datblygiadau o ran Strategaeth Endpoint | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 82 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Storio yn SharePoint | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 83 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Argraffu yn y cwmwl | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 84 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Adnewyddu ffonau symudol yr Aelodau | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 85 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Adnewyddu ffonau ardaloedd cyffredin | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 86 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Gofynion cynnal a chadw gliniadur | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 87 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Adnewyddu cyfrifiaduron pen desg y Siambr | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 88 | Yn yr arfaeth | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 89 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Adnewyddu taflunydd y Pierhead | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 90 | Yn yr arfaeth | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 91 | Yn yr arfaeth | Prosiect buddsoddi yn y seilwaith darlledu | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 92 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Uwchraddio Unbraco | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 93 | Yn yr arfaeth | Blaenraglen waith TGCh: Darnau hanfodol ar gyfer dangosyddion sbarduno cyfyngiadau aer (ACB) foltedd isel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 94 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Uwchraddio lifftiau 1 a 2 yn y Senedd (liffitau allanol) | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 95 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Ehangu system larwm tân Tŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 96 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Gwaith trwsio yn dilyn yr archwiliad o'r Pierhead a gynhelir bob 4 bly | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 97 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: BMS y Senedd - Datblygu dyluniadau a manylebau manwl | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 98 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Darnau hanfodol ar gyfer yr holl lifftiau ar Ystad Bae Caerdydd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 99 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Stribedi rwmblan newydd yn y Senedd | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 100 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Troi gweddill goleuadau'r Senedd yn oleuadau LED | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 101 | Yn yr arfaeth | Cofrestr o gynlluniau cynnal a chadw EFM: Troi gweddill goleuadau'r Pierhead yn oleuadau LED | Yn yr arfaeth | 24-25 |
| 102 | Yn yr arfaeth | Cofrestr Cynnal a Chadw Ymlaen EFM: Lloriau a dodrefn newydd ym mwyty staff Tŷ Hywel | Yn yr arfaeth | 24-25 |

**Diweddariad ar Ymgysylltu 2023 y Pwyllgor Cyllid**

Mae ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd yn rhoi mwy o bwyslais ar gasglu data i gryfhau mewnwelediad cynulleidfa a gwella'r ddealltwriaeth o effaith ein gwaith. Mae ein ffocws ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig y rheini sy'n teimlo nad yw eu lleisiau wedi'u clywed yn draddodiadol gan sefydliadau fel y Senedd.

I wneud hyn rydym yn cynnal gwaith ymchwil ar y gynulleidfa ac wedi cyflwyno ffyrdd newydd o gasglu adborth gan gynulleidfaoedd – megis arolygon cwsmeriaid ar gyfer ymwelwyr a mynychwyr ein digwyddiadau. Rydym hefyd wedi cyflwyno offer i fonitro cyrhaeddiad ein sylw yn y cyfryngau cymdeithasol ac yn y cyfryngau traddodiadol.

**Rhaglenni ymgysylltu**

*Ymgysylltu â Dinasyddion*

- Mae'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn chwarae rôl hanfodol yn helpu pwyllgorau'r Senedd drwy hwyluso ymgysylltiad â grwpiau amrywiol o bobl ledled Cymru. Mae'r ymgysylltiad hwn yn helpu i ddarparu mewnwelediad gwerthfawr i'r pwyllgorau, yn enwedig gan unigolion sydd â phrofiad byw, defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr y rheng flaen.
- Yn ystod 2022 a 2023, mae'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi ymgysylltu'n weithredol â chyfanswm o 3,045 o unigolion ar draws 41 o wahanol ymchwiliadau.
- Ymhlith y dulliau amrywiol a ddefnyddir gan y tîm i ymgysylltu, cyfweliadau manwl a grwpiau ffocws oedd y rhai mwyaf amlwg, gan gyfrif am 92 y cant o'r dulliau a ddewisiwyd gan y tîm.
- O fewn y demograffig ymgysylltu, roedd 19 y cant yn cynrychioli pobl ag anableddau, ac roedd 19 y cant ychwanegol yn cynrychioli gwahanol agweddau ar hil ac ethnigrwydd.
- Mae cyflwyno grwpiau cynghorol, sy'n cynnwys unigolion sydd â phrofiadau byw amrywiol sy'n ymwneud â'r materion penodol dan sylw'r Pwyllgor, wedi cyflwyno dull ffres, cydgynhorol ac arloesol o ymgysylltu. Mae grwpiau cynghorol wedi'u ffurfio ar gyfer ymchwiliadau sy'n ymwneud â *mynediad plant anabl at ofal plant ac addysg*, yn ogystal ag *anghydraddoldebau iechyd meddwl*.
- Gellir gweld enghraifft o sut mae profiad byw wedi cyfrannu'n sylweddol at waith craffu effeithiol gan bwyllgorau yn y dystiolaeth fideo, a gafodd ei ffilmio a'i golygu gan y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, yn ystod yr ymchwiliad i ganserau gynaecolegol: https://senedd.cymru/senedd-nawr/blog-y-senedd/canserau-gynaecolegol-a-yw-menywod-yn-cael-eu-cymryd-o-ddifrif/

*Senedd Ieuenctid Cymru ac Addysg*

- Hyd yma yn 2023 mae'r timau wedi ymgysylltu â 21,897 o bobl ifanc ar draws sesiynau addysg a digwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru sydd bron yn gynnydd o 100% o gymharu â 2022 (12,052).

- O'r grwpiau hyn roedd tua 28 y cant o gefndiroedd BAME, roedd 10 y cant yn grwpiau o bobl ifanc LHDTC+, roedd 19 y cant yn grwpiau ag anableddau ac roedd 13 y cant o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol isel/teuluoedd incwm isel.
- Wrth ymgysylltu â phobl ifanc ar gyfer ymgynghoriadau Senedd Ieuenctid Cymru, defnyddiodd staff dechnegau gwahanol gyda phob ymgynghoriad.

Er enghraifft:

- Ar gyfer yr ymgynghoriad 'Ffyrdd Cynaliadwy', buont yn gweithio gydag ysgolion o ardaloedd gwledig ac economaidd-gymdeithasol isel y mae eu mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig, ac o ganlyniad i hyn mae eu mynediad i'w man dysgu drwy drafnidiaeth gyhoeddus.
- Cynhaliwyd y digwyddiadau eu hunain hefyd mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol isel.
- Ar gyfer yr ymgynghoriad i Hyd y Diwrnod Ysgol, defnyddiwyd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ogystal â data o Fy Ysgol Leol i dargedu ysgolion sydd â niferoedd uwch na'r cyfartaledd o ddysgwyr BAME, dysgwyr uwch na'r cyfartaledd sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim, ac ysgolion o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

**Profiad ymwelwyr**

- Mae'r tîm Profiad Ymwelwyr wedi cynnal 16 arddangosfa ar yr ystâd ac mae 75 y cant o'r rhain wedi canolbwyntio ar ddathlu grwpiau amrywiol a chysylltu â hwy. Er enghraifft, cafodd *Black and Welsh* ei ddangos yn y Senedd ym mis Hydref 2022 i ddathlu Mis Hanes Pobl Dduon.
- Gwelodd Carnifal Trebiwt hefyd 13,579 o bobl yn ymweld ag Arddangosfa'r Pierhead a'r Senedd yn ystod mis Awst 2023, gyda 48 y cant ohonynt yn ymwelwyr tro cyntaf.
- Yn y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 70 y cant o'r ymwelwyr a gwblhaodd arolygon cwsmeriaid nad oeddent wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen
- Dywedodd 73 y cant o'r ymwelwyr a lenwodd yr arolwg fod eu dealltwriaeth o'r Senedd wedi cynyddu ar ôl eu hymweliad, a dywedodd 54 y cant eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan yng ngwaith y Senedd yn dilyn eu hymweliad.

**Digwyddiadau ac Allgymorth**

- Mae'r tîm Digwyddiadau wedi cynnal 203 o ddigwyddiadau a noddir gan yr Aelodau yn y 12 mis diwethaf, gyda sefydliadau fel: Anabledd Cymru, Chwarae Teg, TUC Cymru, Centre for Kurdish Progress ac Action for Elders.
- Mae staff wedi mynychu digwyddiadau a gynhaliwyd gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis digwyddiad y Privilege Café 'We are not hard to reach' a digwyddiad Cymdeithas Menywod Bangladesh Cymru 'Voter Engagement - Increasing participation to empower communities' fel y gallwn wrando, dysgu a meithrin partneriaethau cryfach.
- Ac ar Ddydd Gŵyl Dewi bu'r tîm Allgymorth yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Ffoaduriaid Cymru gan wahodd ffoaduriaid a oedd wedi symud i Gymru yn y 12-18 mis diwethaf i'r Senedd am y tro cyntaf. Yn ogystal â rhoi llwyfan iddynt adrodd eu straeon yn ystod y digwyddiad, cawsant hefyd daith o amgylch y Senedd a chyfle i gwrdd â'r Llywydd a sgwrsio â hi.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

- Fel rhan o’n hymdrechion i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd rydym wedi bod yn gweithio gyda dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol i ehangu ein gwaith ar eu sianeli. Mae hyn yn ein helpu i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn draddodiadol yn ein dilyn ac sydd ar lwyfannau fel TikTok, nad oes gennym bresenoldeb corfforaethol arno ond y gwyddom fod cynulleidfaoedd ifanc yn ei ddilyn.
- Rydym wedi gweithio gyda dylanwadwyr proffil uchel, fel Dr Alex George a ymddangosodd gyntaf ar Love Island, i ehangu gwaith Senedd Ieuenctid Cymru, a chyda dylanwadwyr lleol i arddangos y Senedd fel atyniad am ddim i ymwelwyr ac annog ymweliadau yn y dyfodol.
- Hyd yma mae 4 dylanwadwr wedi ymweld ac wedi creu cynnwys am y Senedd, gan arwain at dros 21,000 yn gwylio, gyda llawer o sylwadau gan ddefnyddwyr yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o'r blaen y gallent ymweld am ddim. Rydym wedi gallu olrhain y gweithgarwch hwn i ymwelwyr newydd â’r Pierhead a’r Senedd.
- Mae meithrin perthynas â dylanwadwyr lleol hefyd yn arwain at fwy o gyfleoedd i ymgysylltu, gydag un o’n dylanwadwyr eisoes yn gofyn am gael defnyddio’r Senedd i gynnal gweithdy creadigol i bobl ifanc o dde Asia a chymunedau Butetown a Grangetown. Mae'r cyfle hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan ein tîm ymgysylltu.
- Mae ein cynnwys cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar bobl a’i nod yw adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau. Er enghraifft, ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi roeddem am ddathlu bod y Senedd yn lle i bawb a gwnaethom hyn drwy wahodd unigolion o bob cefndir i adrodd eu “Hanesion Cymreig”.
- Rydym hefyd wedi rhannu straeon pobl go iawn i gefnogi gwaith y pwyllgorau ar yr argyfwng costau byw, profiad o'r system ofal ac iechyd a chydraddoldeb menywod.

**Newyddion**

- Y llynedd bu cynnydd o 7 y cant yn narllediadau newyddion y Senedd a chynnydd o 16 y cant yn y newyddion am waith y pwyllgorau.
- Mae’r tîm newyddion wedi cynnal archwiliad o’r cyfryngau hyperleol ledled Cymru gyda’r nod o gyrraedd gwahanol gymunedau ar draws y wlad. Maent wedi bod yn creu cysylltiadau â newyddiadurwyr lleol ac yn sicrhau bod desgiau newyddion yn cael eu diweddaru. Y nod yw pecynnu busnes y Senedd, yn enwedig gwaith pwyllgorau, a theilwra’r cynnwys i ardaloedd penodol a, lle bo’n bosibl, cynnwys astudiaethau achos lleol.
- Mae’r tîm hefyd wedi creu perthynas agosach â rhwydweithiau radio masnachol fel Bauer a Global, gan gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd o blith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar orsafoedd radio cymunedol.
- Yn fwy diweddar mae’r tîm wedi cefnogi cynrychiolwyr o’r Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN) – corff sy’n cynrychioli 122 o gyhoeddiadau annibynnol ledled y DU – sydd wedi sicrhau cyllid ar gyfer gohebydd 12 mis i roi sylw i’r Senedd a’i thrafodion. Bydd y tîm yn gweithio’n agos gyda’r gohebydd i’w helpu i hyrwyddo gwaith y Senedd mewn cymunedau lleol ledled Cymru.